- h) Ni chafodd cyfeiriad post Mrs Holland ei ddatgelu ar y rhaglen. Roedd yr achwynwyr yn fwriadol wedi gorddatgan pryderon am ddiogelwch ond o ran parch i ansicrwydd menyw yn byw mewn lleoliad unig ni ddangosodd gwneuthurwyr y rhaglen ei wyneb na rhif cofrestru'r car a gwnaethant eu gorau i beidio â dangos ei chartref. Y tu ôl i'r gŵyn hon mae'r awgrym y gallai fod wedi dod yn darged i ymgyrchwyr iaith Gymraeg milwriaethus. Ond daeth yr ymgyrch losgi yn targedu cartrefi gwyliau i ben yn gynnar yn yr 1990au. Er na wnaeth gwneuthurwyr y rhaglen enwi ei chartref ni wnaethant roi unrhyw sicrwydd i Mrs Holland na fuasent yn ffilmio ei thŷ. Roeddent wedi gweithredu yn unol â'i dymuniad i beidio ag ymddangos yn y rhaglen.

I grynhoi ymatebodd y darlledwr i'r gŵyn tegwch gan Mr Asquith trwy:

- f) Mae'r sylwadau agoriadol yn a) uchod yn delio â'r pwyntiau cyffredinol a godwyd gan yr achwynydd.
- ii. Roedd y disgrifiad o Mr Asquith wedi ei eirio'n ofalus. Roedd yn gywir i ddweud ei fod yn fargyfreithiwr o Loegr: y pwynt oedd y gwahaniaeth rhwng y ffermwr brodorol a'r person yr oedd ef yn ei ystyried oedd yn ei wthio allan. Roedd y rhaglen yn adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd gan Mr Asquith, sef ei fod o dras Gymreig, manylyn pwysig i osgoi'r argraff mai anghydfod oedd hwn rhwng Cymry a Saeson a chafodd hyn ei grybwyll am un munud yn unig i mewn i'r rhaglen.
 - ix. Yn ôl Geiriadur Cryno Rhydychen roedd Mr Asquith yn 'fewnfudwr' oherwydd ei fod wedi dod i fyw i ardal lle nad oedd wedi ei fagu ynddi; roedd y cyfeiriad at fewnfudwr yn rhan o gwestiwn rhethregol am waith Cymuned. Adroddodd y rhaglen hefyd bersbectif nid afresymol Mr Jones fod Mr Asquith yn fewnfudwr
 - x. Gallai defaid Mr Jones grwydro'n rhydd yng nghoedlan Tyn y Coed; cyfeiriodd y rhaglen at fodlonrwydd Mr Jones i Mr Asquith fynd â'i gŵn trwy'r caeau yn ystod y tymor wyna mewn ymdrech i gael cydbwysedd ar y pwnc hwn a hyrwyddo ochr Mr Asquith o'r stori.
 - xi. Roedd y cyfeiriadau at Mr Asquith yn 'symud defaid' a 'stoc' ac at ffermwyr lleol yn helpu Mr Jones i ddychwelyd y defaid ar y tir yn dyfynnu honiad a wnaethpwyd gan Mr Jones. Ymhellach roedd Mr Asquith wedi cyfaddef mewn sgwrs ffôn gyda gwneuthurwyr y rhaglen ei fod wedi cau'r defaid allan gan wneud unrhyw anghywirdeb yn amherthnasol.
 - xii. Roedd y brif glwyd dan gartref Mrs Holland bob amser ar gau. Roedd y clwydi eraill wedi'u gadael ar agor yn fwriadol ac yn gywir er mwyn caniatáu i'r defaid grwydro.
 - xiii. Roedd datganiad Mr Jones 'fi yw'r Cymro olaf yn y Cwm' yn gywir fel cyfeiriad at gwm bychan Cwm Mynach.
 - xiv. Ni allai gwneuthurwyr y rhaglen ymateb i'r cyfeiriad at farn ynglŷn â Cymuned heb ragor o fanylion ynglŷn â'r anghywirdeb honedig.
 - xv. Nid oedd bwriad i bortreadu Mr Asquith fel bargyfreithiwr Torïaidd o Sais cyfoethog dieflig. Roedd lleoliad ei gartref yn berthnasol i'r mater o faint o ddealltwriaeth y gallai fod ganddo o sefyllfa Mr Jones gan ei fod yn byw, gweithio ac yn gynghorydd sir o gwmpas Manceinion. Cymerwyd y wybodaeth am ei gartref o wefan gyfredol ar y pryd Cyngor Sir Gaer.

g) Cafodd y mater o ragfarn ei drafod uchod yn y sylwadau agoriadol yn a).

Roedd yr amser yr oedd yr achwynydd yn ymddangos yn adlewyrchu'r amser a dreuliodd yn dod at y criw camera.

Ni chafodd y cyfweiliad gyda Mr Mygind ei defnyddio gan ei bod yn ymwneud ag anghydfod gwahanol iawn am sut y dylid ffermio'r tir.

I grynhoi ymatebodd y darlledwr i'r gŵyn preifatrwydd yn erbyn Mr Asquith trwy:

- h) Geiriau cyntaf Mr Asquith i wneuthurwyr y rhaglen oedd gorchymyn i ddiffodd y camera, ond parhaodd gwneuthurwyr y rhaglen i ffilmio hyd nes y daeth yn amlwg pam ei fod eisiau iddynt roi'r gorau i ffilmio. Ei ddadl oedd, nid eu bod yn ei ffilmio ef, ond eu bod yn ffilmio ar dir lle nad oedd ganddynt hawl i ffilmio. Ar bob achlysur arall, roedd yn dynesu at y camera ac roedd yn amlwg ei fod eisiau iddynt ei ffilmio, er enghraifft, ar achlysur lle roed yn amlwg ei fod eisiau ffilmio llythyr. Yn wahanol i Mrs Asquith a ddywedodd nad oedd yn dymuno ymddangos yn y rhaglen, ni chafwyd yr un datganiad gan Mr Asquith.

Sylwadau Mrs Holland a Mr Asquith ar ymateb S4C

I grynhoi sylwebodd Mrs Holland ar ymateb y darlledwr i'r gŵyn tegwch trwy:

- a) Mabwysiadodd gwneuthurwyr y rhaglen farn Mr Jones fel ffaith ddiamheuol yn hytrach nag edrych ar faterion yn ddiuedd, ac mewn nifer fechan o achosion maent wedi bod yn amlwg yn anonest.
- i. Ni allai'r defaid grwydro drosodd rhwng caeau Tyn y Coed Mrs Holland a'r tir cyfagos fel y disgrifiwyd yn ymateb y darlledwr gan eu bod wedi eu gwahanu gan ffensys a chlwydi. Mewn gwirionedd, canfuwyd hyn gan yr ynadon yn yr achos llys a ddechreuwyd gan Mr Jones ynglŷn â chŵn Mrs Holland. Nid oedd tir Mrs Holland yn arbennig nac yn hanfodol i ddefaid Mr Jones ac roedd yn parhau i gadw defaid a magu wyn.
 - ii. Yn ôl diffiniad gwneuthurwyr y rhaglen o'r gair 'mewnfudwr' byddai'r ffermwr Mr Jones yn fewnfudwr gan ei fod wedi byw y tu allan i'r cwm am nifer o flynyddoedd. Roedd y defnydd o'r ymadrodd yn ddifriol yn unig. Roedd cwestiwn Mr Jones 'pam prynu tŷ mewn lleoliad o'r fath?' yn anwybyddu'r ffaith fod Mrs Holland wedi bod yn berchen ar yr eiddo ac wedi bod â chysylltiadau agos â Chwm Mynach am nifer o ddegawdau. Mabwysiadodd gwneuthurwyr y rhaglen y rhagymadrodd mai'r rheswm dros yr anghydfod oedd bod mewnfudwyr wedi methu ag addasu i'r ffordd wledig o fyw ac roeddent wedi methu â herio barn Mr Jones.
 - iii. Gwnaeth gwneuthurwyr y rhaglen ddiffiniad technegol o'r gair 'cwm'. Canlyniad hynny oedd bod y rhaglen wedi rhoi argraff gamarweiniol bod y gymuned yn llawn cartrefi gwyliau. Roedd golygu sylwadau Aran Jones o Cymuned am ail gartrefi yn gwneud iddynt ymddangos fel sylw am Mrs Holland. Nid oedd Mrs Holland chwaith yn ymwybodol o berthnasedd ei gweithgarwch busnes ym Manceinion. Tyn y Coed yw ei hunig gyfeiriad preswyl. Ymhellach, a fyddai'r un pwynt wedi'i wneud am fusnes wedi'i leoli yng Nghaerdydd?
 - iv. Rhoddwyd yr argraff annheg fod y llysoedd wedi siomi Mr Jones yn ei erlyniad o'r cŵn. Nid dadlau yn unig dros gronoleg a wnaeth Mrs Holland. Rhoddwyd yr argraff ei bod wedi rhoi rhybudd i Mr Jones adael oherwydd yr achos llys ynglŷn â'i chŵn. Trwy newid y gronoleg portreadodd gwneuthurwyr y rhaglen hi yn annheg fel rhywun bach ei meddwl.
 - v. Roedd Mrs Holland yn sensitif i safbwynt Mr Jones ond y realiti ymarferol oedd nad oedd angen darn mor fychan o dir .
 - vi. Roedd y darn gyda ffermwyr lleol yn enghraifft unwaith eto o'r modd y derbyniodd gwneuthurwyr y rhaglen fersiwn Mr Jones heb ei herio.

- vii. Roedd y cyfeiriad 'aeth Meirion Jones' i'r llys' yn cyflwyno Mr Jones fel y parti oedd wedi cael cam pan mai Mrs Holland oedd honno. Mae'n cyfrif felly pwy gychwynnodd yr achos. Ymhellach cymerwyd y cyfeiriad 'ym mis Ebrill cafodd Orchymyn Llys' heb ei gadarnhau gan wneuthurwyr y rhaglen gan Mr Jones. Nid oedd gorchymyn llys pan gafodd y rhaglen ei gwneud a gallai Mr Jones fod wedi aros hyd nes y cafodd y gorchymyn ei wneud ym mis Gorffennaf ond gadawodd y tir yn wirfoddol. Roedd Mrs Holland wedi gwneud cynnig ffurfiol iddo aros tan Fawrth 2006 ond nid oedd wedi ei dderbyn. Mae'r deunydd na chafodd ei ddarlledu yn dangos nad oedd Mrs Holland yn cadw Mr Jones oddi ar ei thir yn barhaol.
- viii. Roedd y deunydd na chafodd ei ddarlledu yn dangos bod statws y ffordd wedi ei esbonio sawl tro, sef mai priffordd gyhoeddus ydyw yn mynd dros dir preifat.
- b) Yn eu hymateb yn gyffredinol mabwysiadodd gwneuthurwyr y rhaglen farn Mr Jones fel ffeithiau di-ddadl.

Defnyddiodd gwneuthurwyr y rhaglen dechnegau pwysau ac ymddygiad twyllodrus oedd yn anghymesur â'r ymchwiliad. Ymhellach nid oedd y ffaith bod unrhyw un wedi gwrthod cymryd rhan yn y rhaglen yn cael gwared â dyletswydd gwneuthurwyr y rhaglen i fod yn gywir ac roedd y ddau achwynydd wedi darparu gwybodaeth ar y ffôn.

Roedd y cyfweiliad gyda Mr Mygind yn dangos patrwm o ymddygiad gan ffermwr, Mr Jones, oedd yn gwneud hawliadau o hawl ar dir nad oedd ganddo hawl arno ac felly yn gelyniaethu ei gymdogion. Ni chafodd y deunydd ei ddefnyddio a gan nad dyma'r rhaglen yr oedd gwneuthurwyr y rhaglen eisiau ei gwneud.

I grynhoi sylwebodd Mrs Holland ar ymateb y darlledwr i'r gŵyn preifatrwydd trwy,:

- c) O ran recordio deunydd cyn darlledu, cynigiodd Mrs Holland beidio â chychwyn achos cyfreithiol cyn belled â bod dim lluniau'n cael eu cymryd o'i thir a'u defnyddio yn y rhaglen; mae'n berchen ar yr holl dir a gall ffensio unrhyw ardal cyn belled â'r briffordd gyhoeddus. Dylai gwneuthurwyr y rhaglen fod wedi cymryd cyngor cyfreithiol cywir dros y mater o hawl i fod ar ei thir. Roedd Mr Asquith a Mrs Holland yn bendant, fel y dangosir yn y deunydd nas darlledwyd, na ddylid ffilmio'r darn i gamera ar dir Mrs Holland ac na ellid felly dangos y tŷ. Roedd y deunydd nas darlledwyd yn dangos gwneuthurwyr y rhaglen yn sibrwd gyda'i gilydd er mwyn torri cytundeb i ffilmio oddi wrth y tŷ a'r tir. Mae ongl y lluniau yn dangos na chawsant eu tynnu o'r briffordd ond o dir Mrs Holland.
- d) O ran darlledu deunydd, cyn darlledu cynigiodd Mrs Holland i beidio â chychwyn achos cyfreithiol cyn belled nad oedd dim lluniau yn cael eu tynnu o'i thir a'u defnyddio yn y rhaglen. Fel y trafodwyd yn c) uchod, nid oedd gan wneuthurwyr y rhaglen hawl i ffilmio ar ei thir nac i ddangos ei thŷ.

Torrodd gwneuthurwyr y rhaglen ar breifatrwydd Mrs Holland dro ar ôl tro gan anwybyddu yn llwyr ei cheisiadau i beidio â gwneud hynny; doedd dim cyfiawnhad dros ffilmio ei char a'i chŵn gan eu bod dan reolaeth briodol ac os oeddent yn dod ar draws defaid roeddent wedi eu hyfforddi i ddod yn nes at y car .

- e) Roedd pryderon Mrs Holland am ddiogelwch yn deg gan fod ymosodiad wedi bod yn y gorffennol.

I grynhoi sylwebodd Mr Asquith ar ymateb y darlledwr i'r gŵyn tegwch trwy:

- f) Mabwysiadodd gwneuthurwyr y rhaglen farn Mr Jones fel ffaith ddiamheuol yn hytrach nag edrych ar faterion yn ddiuedd, ac mewn nifer fechan o achosion maent wedi bod yn amlwg yn anonest.
- i. Roedd y disgrifiad o Mr Asquith wedi ei eirio yn ofalus, ond nid i roi'r argraff a awgrymwyd h.y. nid oedd o Loegr yn fwy nag unrhyw Gymry eraill sydd wedi eu gorfodi, oherwydd economeg, i weithio yn Lloegr; mae Mr Asquith yn hanner Cymro, ond sefydlir ei 'Seisnigrwydd' yn y lluniau agoriadol a chan y gerddoriaeth Nimrod dros y lluniau o Alderley Edge. Roedd yn amlwg fod gwneuthurwyr y rhaglen eisiau ei bortreadu fel bargyfreithiwr dieflig o Sais oedd yn bwlio ffermwr tlawd Cymreig. Roedd yn annheg i awgrymu ei fod yn dramorwr ac yn hawdd defnyddio'r term Saesneg fel term difriol.
 - ii. Yn ôl diffiniad gwneuthurwyr y rhaglen o'r gair mewnfudwr byddai Mr Jones yn un gan ei fod wedi byw y tu allan i'r cwm am sawl blwyddyn. Roedd y defnydd o'r ymadrodd yn ddiffiniad difriol gwneuthurwyr y rhaglen o'r gair mewnfudwr, a byddai Mr Jones yn un gan ei fod wedi byw y tu allan i'r cwm am sawl blwyddyn. Roedd y defnydd o'r ymadrodd yn ddifriol.
 - iii. Adroddodd y rhaglen hefyd fod Mr Asquith fel mewnfudwr wedi bod yn dychryn defaid Mr Asquith pan nad oes tystiolaeth o hyn. Dim ond mewn lle wedi ei ffensio y mae cŵn Mr Asquith yn rhedeg; ymhellach roedd Mr Jones wedi gofyn iddynt gael eu gadael allan i ddychryn llwynogod. Ni heriwyd sefyllfa Mr Jones.
 - iv. Ni ddywedwyd 'dywedodd Mr Jones fod...' cyn yr honiad fod Mr Asquith wedi symud y defaid, ond yn hytrach fe'i dywedwyd fel mater o ffaith. Caeodd Mr Asquith y glwyd gyda'r defaid yn y caeau yn ôl gofyniad y Ddeddf Priffyrdd. Roedd y cyfeiriad at 'ffermwyr lleol' yn enghraifft o sut unwaith eto roedd gwneuthurwyr y rhaglen wedi derbyn fersiwn Mr Jones heb sialens.
 - v. Y rheswm pam fod Mr Asquith wedi cau'r clwydi i'r caeau oedd bod Mr Jones wedi bod yn cyflawni trosedd trwy ganiatáu i'r defaid redeg ar y ffordd heb angen ffermio (e.e. cysgod a dŵr). Ymhellach roedd y rhaglen yn awgrymu trwy'r cyfeiriad at Mr Asquith yn 'paragleidio' ei fod yn ymweld â'r ardal i chwarae yn unig pan, mewn gwirionedd, mae'n treulio ei benwythnosau yn rheoli'r goedlan.
 - vi. Mae Cymro arall yn ffermio yng nghwm bychan Cwm Mynach er y cydnabyddir nad yw bellach yn byw yno.
 - vii. Rhoddodd gwneuthurwyr y rhaglen y sylw yng ngheg Mr Asquith 'nad yw'n deall pam fod Cymuned yn gwthio eu trwynau i mewn (i'r mater hwn)' pan, mewn gwirionedd, ceisiodd Mr Asquith, Mrs Holland a Cymuned ddod i gyfaddawd.
 - viii. Cyfaddefodd Mr Asquith mai ymwelydd oedd â Chwm Mynach ond cwestiynodd berthnasedd y cyfeiriadau at ei gartref ger Manceinion pan mai Mrs Holland oedd yn gwneud yr holl benderfyniadau ynglŷn â'i thir ac mai hi oedd â'r gair olaf am y ffilmio. O'r darn am ei gartref yn Alderley Edge ymlaen, roedd y rhaglen fel pe bai i gyd am Mr Asquith a Mrs Holland yn gwrthwynebu ffilmio. Tua hanner yr amser a ddarledwyd. Diweddarwyd manylion cyfeiriad Mr Asquith ar wefan Cyngor Sir Gaer ar 5 Mai 2005 ac roedd y darllediad ar 14 Mehefin 2005 gyda gwybodaeth anghywir wedi'i gymryd o doriad dyddiedig Ionawr 2001.

- g) Yn eu hymateb mabwysiadodd gwneuthurwyr y rhaglen farn Mr Jones yn bennaf fel ffaith ddi-ddadl.

Defnyddiodd gwneuthurwyr y rhaglen dechnegau pwysu ac ymddygiad twyllodrus oedd yn anghymesur â'r ymchwiliad. Ymhellach nid yw gwrthodiad unrhyw un i gymryd rhan mewn rhaglen yn cael gwared â dyletswydd gwneuthurwyr rhaglen i fod yn gywir ac roedd y ddau achwynydd wedi darparu gwybodaeth ar y ffôn.

Roedd y cyfweiliad gyda Mr Mygind yn dangos patrwm o ymddygiad gan ffermwr, Mr Jones, oedd yn gwneud hawliadau i dir nad oedd ganddo hawliau iddo ac felly'n gelyniaethu ei gymdogion; nis defnyddiwyd y deunydd gan nad dyma'r rhaglen yr oedd gwneuthurwyr y rhaglen eisiau ei gwneud.

I grynhoi sylwebodd Mr Asquith ar ymateb y darlledwr i'r gŵyn preifatrwydd trwy:

- h) Roedd gwneuthurwyr y rhaglen yn ymwithio arno ac ni wnaethant roi'r gorau i ffilmio ar unrhyw adeg er ei fod wedi'i gwneud yn amlwg ei fod yn dymuno trafod eu presenoldeb heb gael ei ffilmio. Roedd eisiau dangos y llythyr y cyfeiriwyd ato ond dim ei ffilmio. Roedd yn cael ei erlid gan y criw. Roedd wedi ei gwneud yn amlwg o'r funud y darganfu ei fod yn cael ei ffilmio nad oedd yn dymuno cael ei ffilmio. Parhaodd i geisio trafod gyda'r gwneuthurwyr ffilm eu bod yn gadael, wrth geisio blocio'r ffilmio. Ceisiodd gwneuthurwyr y ffilm wahaniaethu rhwng sefyllfa Mr Asquith a sefyllfa Mrs Holland nad oedd eisiau unrhyw ran yn y ffilm, pan, mewn gwirionedd, ei sefyllfa oedd y byddai'n gweithredu yn gytûn gyda Mrs Holland ac yn cydymffurfio gyda'i dymuniadau.

Roedd y deunydd na chafodd ei ddarlledu yn ei gwneud yn glir nad oedd Mrs Holland na Mr Asquith yn dymuno cael eu ffilmio, gwneud sylw na chymryd rhan yn y rhaglen. Ymhellach roedd yn dangos fod gwneuthurwyr y rhaglen yn benderfynol o gael lluniau pellach o Mr Asquith.

Ail ddatganiad S4C mewn ymateb

I grynhoi, ymatebodd S4C i sylwadau Mrs Holland ar y gŵyn tegwch trwy:

- a) Roedd y cyhuddiad fod gwneuthurwyr y rhaglen wedi mabwysiadu barn Mr Jones fel ffeithiau di-ddadl yn hytrach nag edrych ar bethau yn ddiuedd yn berthynol i ymateb S4C yn hytrach nag i'r rhaglen fel y'i darlledwyd. Cyflwynodd y rhaglen farn y ddwy ochr ac roedd ymateb gwneuthurwyr y rhaglen yn ceisio cyfiawnhau cynnwys barn y ffermwr yn y rhaglen, ac nid yw'n derbyn fel ffaith. Gwnaeth y rhaglen gyfiawnder â sefyllfa'r achwynwyr er eu bod wedi gwrthod pob cyfle i ymddangos yn y rhaglen. Beth bynnag, methodd yr achwynwyr ag esbonio sut yr esgorodd yr anghywirdebau honedig ar annhegwch iddynt hwy.
- i. Roedd yr achwynwyr yn dadlau nad oedd tir Mrs Holland yn arbennig nac yn hanfodol i ddefaid Mr Jones, ond mae gan Mr Jones bellach gant yn llai o ddefaid oherwydd iddo golli tir Tyn y Coed ac mae'r ffin rhwng elw a cholled yn hynod o gul.
 - ii. Heriwyd barn Mr Jones (pam prynu tŷ mewn lleoliad o'r fath?) gan gwestiwn y gohebydd 'ydych chi ddim yn meddwl ei bod yn galed arnyn nhw, yn byw yn y tai hyn wedi'u hamgylchynu gan dir yr ydych chi yn ei ffermio?' Ni fabwysiadodd y rhaglen y rhagymadrodd mai'r rheswm dros yr anghydfod hwn

oedd oherwydd nad yw mewnfudwyr wedi addasu i'r ffordd wledig o fyw. Adroddodd y rhaglen safbwynt Mr Jones a'i herio a oedd angen tir Mrs Holland, a oedd yn ceisio ei dychryn, a oedd yn wrth Seisnig. Cyflwynodd y rhaglen hefyd farn yr achwynwyr gan wneud yn amlwg eu bod wedi ennill pob brwydr gyfreithiol, yn dangos eu bod yn iawn ar y materion hyn.

- iii. Defnyddiodd gwneuthurwyr y rhaglen y gair Cwm i gyfeirio at Gwm Mynach, ardal neilltuol fel y'i hadnabyddir gan bobl leol. Roedd sylw Aran Jones o Cymuned, yn ymwneud ag ail gartrefi, yn siarad am rywbeth nad yw wedi digwydd eto, a'r canlyniadau posibl. Roedd cyfeiriad post Mrs Holland yn cael gwared ag unrhyw argraff bod ei holl fywyd yn cael ei dreulio yng Nghwm Mynach. Pe bai ei busnes wedi bod yng Nghaerdydd byddai hynny wedi ei adrodd.
- iv. Ni wnaethpwyd unrhyw ymateb ar wahân ynglŷn ag unrhyw argraff a roddwyd ynglŷn ag achos Mr Jones ynglŷn â chŵn Mrs Holland. Rhoddwyd y gronoleg i wneuthurwyr y rhaglen gan Mr Asquith mewn llythyr yn rhoi manylion am union ddilyniant digwyddiadau.
- v. Cwynodd Mrs Holland am linell sylwebaeth y rhaglen 'mae hi (Mrs Holland) yn dadlau nad yw Meirion Jones angen ei thir mewn gwirionedd'. Cafodd y gŵyn hon ei gwrthdweud gan y sylw yn ei hail gyflwyniad 'y realiti ymarferol yw nad yw angen darn mor fach o dir'.
- vi. Ni wnaethpwyd ymateb ar wahân ynglŷn â'r cyfeiriad 'aeth Meirion Jones i'r llys'. Roedd gwneuthurwyr y rhaglen wedi synnu bod yr achwynwyr wedi datgan y gallai Mr Jones fod wedi aros ar y tir hyd nes y byddai gorchymyn llys yn cael ei wneud ym mis Gorffennaf ond ei fod wedi gadael y tir yn wirfoddol. Roedd gwneuthurwyr y rhaglen wedi cael ar ddeall gan Mr Asquith fod Mr Jones wedi bod yn tresmasu ers mis Mawrth 2005 a'i fod yn cael gadael defaid yno tan ddiwedd Mai am resymau lles anifeiliaid, oherwydd y tymor wyna diweddar.
- vii. Ni wnaethpwyd ymateb ar wahân ynglŷn â statws y ffordd.

b) Nid oedd y rhaglen yn arddangos unrhyw ragfarn wrth-Seisnig fel yr honnwyd gan yr achwynwyr, ond yn hytrach roedd yn adrodd ffeithiau, er enghraifft Mr Jones oedd y Cymro olaf i fyw a ffermio yng Nghwm Mynach ac roedd Mr Asquith o dras Gymreig gyda chysylltiadau agos â Manceinion.

Ni ddefnyddiwyd unrhyw 'dechnegau pwysau' fel y datganwyd yn ail sylwadau'r achwynwyr. Rhoddodd gwneuthurwyr y rhaglen bob cyfle i'r achwynwyr gymryd rhan fel ag sy'n ofynnol yn ôl ymarfer gohebu da.

Pe bai gwneuthurwyr y rhaglen wedi bod yn benderfynol o wneud rhaglen wrth-Seisnig byddent wedi cynnwys yn hytrach nag eithrio'r cyfweiliad gyda Mr Mygind (perchennog tir Saesneg sydd hefyd wedi bod mewn anghydfod â Mr Jones). Ni fyddent chwaith wedi cynnwys y cyfweiliad a ddarlledwyd gyda pherchennog tir Saesneg arall, Mr Yoward, a ddaeth drosodd fel rhywun rhesymol, hoffus a chraff.

I grynhoi, ymatebodd S4C i sylwadau Mrs Holland ar y gŵyn preifatrwydd trwy:

c) O ran recordio'r lluniau, ni wnaeth y rhaglen dorri ar breifatrwydd Mrs Holland yn anesgusodol. I wneud hynny byddai wedi golygu torri i mewn ar agwedd o'i bywyd

yr oedd hawl ganddi i'w gadw'n breifat ac i'r torri i mewn hwnnw fod yn anesgusodol. Nid oedd yr un yn wir.

Ffilmiodd gwneuthurwyr y rhaglen ar dir Tyn y Coed gan gredu fod ganddynt hawl i wneud hynny gyda chaniatâd Mr Jones ac ar ôl siarad gyda Mrs Holland aethant oddi ar y tir. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, buont yn ffilmio ar neu yn agos at y ffordd ar yr ail ddiwrnod o ffilmio a pharcio wrth y man agosaf cyfleus. Ni wnaeth y ffilmio a wnaethpwyd torri ar breifatrwydd unrhywun. Nid oedd unrhyw gytundeb i ffilmio oddi wrth y tŷ a'r tir. Nid oedd y lluniau yn cefnogi casgliadau'r achwynwyr dros leoliad y dyn camera gan ei fod yn ffilmio o dreipod uchel.

- d) O ran darlledu'r lluniau, gwnaethpwyd yr un ymateb ag uchod ym mhwynt c).
- e) Cododd yr achwynwyr faterion diogelwch ond nid oedd enw Mrs Holland yn gyffredin yng Ngogledd Cymru ac roedd hynny yn ei gwneud yn hawdd i olrhain ei rhif ffôn. Ni chrybwyllwyd ymosodiad cynharach ar adeg gwneud y rhaglen. Pe bai wedi ei grybwyll yna bydda'r risg canfyddedig wedi ei ail asesu.

I grynhoi ymatebodd S4C i sylwadau Mr Asquith ar y gŵyn tegwch trwy:

- f) Roedd y cyhuddiad fod gwneuthurwyr y rhaglen wedi mabwysiadu barn Mr Jones fel ffeithiau di-ddadl yn hytrach nag edrych ar faterion yn ddiuedd yn berthynol i ymateb S4C yn hytrach na'r rhaglen fel y'i darlledwyd. Cyflwynodd y rhaglen farn y ddwy ochr ac roedd ymateb gwneuthurwyr y rhaglen yn ceisio cyfiawnhau cynnwys barn y ffermwr yn y rhaglen, dim i'w derbyn fel ffaith. Gwnaeth y rhaglen gyfiawnder â sefyllfa'r achwynwyr er eu bod wedi gwrthod pob cyfle i ymddangos yn y rhaglen. Beth bynnag, methodd yr achwynwyr ag esbonio sut yr esgorodd yr anghywirdebau honedig ar annhegwch iddynt hwy.
 - i. Doedd dim bygythiol yn y defnydd o ddarn cyfarwydd o gerddoriaeth Saesneg i gyd-fynd â lluniau o Alderley Edge. Doedd dim awgrym mai tramorwr oedd Mr Asquith, dim ond mewnfudwr i'r Cwm. Ni ddefnyddiwyd y gair 'Saesneg' i'w ddisgrifio.
 - ii. Ni wnaethpwyd ymateb ar wahân ynglŷn â'r defnydd pellach o'r gair mewnfudwr.
 - iii. Adroddiad Mr Jones oedd y dystiolaeth am gŵn Mr Asquith yn dychryn defaid Mr Jones a chyflwynwyd hyn i Mr Asquith mewn sgwrs ar y ffôn. Cynrychiolwyd ei ymateb fod Mr Jones yn hapus i'w gŵn redeg trwy'r defaid i ddychryn llwynogod wedi'i gynrychioli yn y rhaglen. Gwelodd gwneuthurwyr y rhaglen drostynt eu hunain nad oedd ffens yn gwahanu'r goedlan lle y gall cŵn Mr Asquith fynd o'r caeau lle roedd y defaid yn pori; heriwyd safbwynt Mr Jones ynglŷn â'i ddefaid yn cael eu styrbio gan y rhaglen yn cyflwyno safbwynt Mr Asquith.
 - iv. Nid oedd Mr Asquith yn gwadu symud dafad trwy ei thafu dros ffens. Ni wnaethpwyd sylw ar wahân ynglŷn â'r darn, yn cynnwys cyfraniadau gan ffermwyr lleol.
 - v. Cadwodd Mr Jones y glwyd i'r cae ar agor fel bod y defaid yn gallu cael cyflenwad o ddŵr ffres trwy'r ffordd.
 - vi. Ni chafwyd ymateb ar wahân ynglŷn â'r rhai sydd yn byw yng Nghwm Mynach.
 - vii. Roedd Mr Asquith yn ddiystyriol yn ei ymateb cyntaf i gyfranogiad y grŵp pwysau Cymuned. Cyflwynwyd y cwestiwn i Aran Jones 'roedd ef [Mr Asquith]

yn methu deall pam fod Cymuned yn gwthio eu trwynau i'r [mater hwn]) fel safbwynt cwbl gyfiawn'.

- viii. Ar un achlysur o leiaf pan oedd y criw yn ceisio ffilmio darn i gamera, Mr Asquith a gafodd y gair olaf am y ffilmio, nid Mrs Holland. Roedd yn anghywir datgan bod hanner y darllediad am Mr Asquith a Mrs Holland yn gwrthwynebu ffilmio' roedd y darn y cyfeiriwyd ato yn 4 munud 16 eiliad allan o 25 munud 45 eiliad o amser rhedeg. Cefnogwyd y wybodaeth am gartref Mr Asquith, yn Alderley Edge, gan y gofrestr etholiadol a'r rhif ffôn a roddwyd gan Mr Asquith, yr esboniodd mai dyma'r rhif ffôn ar gyfer tŷ yr oedd yn ei rannu gyda'i fam.

- g) Nid oedd y rhaglen yn arddangos unrhyw ragfarn wrth-Seisnig fel yr honnir gan yr achwynwyr, yn hytrach roedd yn adrodd ffeithiau, er enghraifft Mr Jones oedd y dyn olaf oedd yn byw ac yn ffermio yng Nghwm Mynach, roedd Mr Asquith o dras Gymreig gyda chysylltiadau agos â Manceinion.

Pe bai gwneuthurwyr y rhaglen wedi bod yn benderfynol o wneud rhaglen wrth-Seisnig byddent wedi cynnwys, yn hytrach nag eithrio'r cyfweiliad gyda Mr Mygind (perchennog tir Seisnig sydd hefyd wedi bod mewn anghydfod â Mr Jones). Ni fyddent chwaith wedi cynnwys y cyfweiliad a ddarlledwyd gyda pherchennog tir Seisnig arall, Mr Yoward, a ddaeth drosodd fel rhywun rhesymol, hoffus a chraff.

Ni ddefnyddiwyd unrhyw 'dechnegau pwysau' fel y datganwyd yn ail sylwadau'r achwynwyr. Rhoddodd gwneuthurwyr y rhaglen bob cyfle i'r achwynwyr gymryd rhan fel ag sy'n ofynnol yn ôl ymarfer gohebu da.

I grynhoi ymatebodd S4C i sylwadau Mr Asquith ar y gŵyn preifatrwydd trwy:

- h) Nid oedd unrhyw ymwithio. Roedd gwneuthurwyr y rhaglen yn ffilmio cyfweiliad pan ddaeth Mr Asquith atynt, oedd wedi dewis stopio a thrafod materion. Ni holodd y gohebydd ef am ei berthynas gyda'r ffermwr. Roedd y llythyr y cyfeiriwyd ato eisoes wedi ei ddangos i'r cynhyrchydd yn nhŷ Mrs Holland; doedd dim angen ei ddangos ym mhresenoldeb y criw os oedd yn bryderus ynglŷn â'i ffilmio. Roedd yn amlwg yn mwynhau mynegi ei farn gyfreithiol gerbron y camera. Dangosodd y lluniau nad oedd Mr Asquith yn cael ei erlid.

Yn wahanol i Mrs Holland nad oedd yn dymuno bod unrhyw luniau ohoni hi na'i heiddo yn cael eu dangos, gwrthod darparu cyfweiliad yn unig a wnaeth Mr Asquith. Cyfathrebodd sefyllfa Mrs Holland i wneuthurwyr y rhaglen a byddai wedi bod yn syml ei fynegi fel cydsefylla. Roedd yn amlwg o'r lluniau fod gan yr awydd i beidio cael eu ffilmio lawer mwy i'w wneud gyda thaerineb Mr Asquith i hyrwyddo ei farn am ffilmio ar y briffordd na gydag unrhyw awydd i ddiogelu ei breifatrwydd. Roedd gwneuthurwyr y rhaglen hefyd wedi sicrhau eu bod yn cael lluniau o Mr Asquith o'r briffordd nad oedd yn croesi tir Mrs Holland rhag ofn i orchymyn llys gael ei roi ynglŷn â'r lluniau a ffilmwyd ar ei thir.

Penderfyniad

Mae dyletswydd statudol Ofcom yn cynnwys defnyddio, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, safonau sydd yn darparu diogelwch digonol i aelodau o'r cyhoedd a phob person arall rhag triniaeth annheg mewn rhaglenni a thorri preifatrwydd yn anesgusodol mewn ac mewn cysylltiad â rhaglenni sy'n gynwysedig mewn gwasanaethau o'r fath.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae Ofcom yn talu sylw i'r angen i wneud yn siŵr bod y safonau hyn yn cael eu defnyddio mewn dull sydd yn gwarantu orau'r lefel priodol o ryddid mynegiant. Mae Ofcom hefyd yn rhwymedig i dalu sylw ym mhob achos at yr egwyddorion y dylai gweithgarwch rheoleiddiol fod yn dryloyw, atebol, cymesur, cyson ac wedi'u targedu yn unig ac achosion lle y mae angen gweithredu.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y cwynion hyn yn ymwneud â rhaglen Gymraeg ei hiaith roedd y Pwyllgor Tegwch ('Y Pwyllgor', corff gwneud penderfyniadau mwyaf uchel Ofcom o ran cwynion Tegwch a Phreifatrwydd) wedi cynnwys yr Aelod o Gymru sydd yn siaradwr Cymraeg. Rhoddir yr holl gyfeiriadau i'r rhaglen yn Gymraeg fel y'u darlledwyd a chyfieithiad Saesneg llawn y cytunwyd arno gan yr holl bartion. Rhoddir hefyd yr is-deitlo Saesneg fel y'u darlledwyd.

Yn yr amgylchiadau yn yr achos hwn, darganfu'r Pwyllgor Tegwch y canlynol:

- c) I ddechrau ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland fod nifer o anghywirdebau ffeithiol yn y rhaglen a'i bod yn portreadu ffeithiau eraill mewn dull hollol gamarweiniol oedd yn esgor ar annhegwch iddi hi. Y cyn Côd Tegwch BSC ('y Côt Tegwch') oedd y Côt perthnasol pan ddarlledwyd y rhaglen hon. Rhaid i ddarlledwyr osgoi annhegwch i unigolion neu gyrff sydd yn ymddangos mewn rhaglenni trwy'r defnydd o wybodaeth anghywir neu wyrddroi gwybodaeth, er enghraifft trwy ddethol neu gyfosod deunydd yn anghywir (Côt Tegwch, paragraff 2). Ymhellach dylai ddarlledwyr gymryd gofal arbennig pan fo'u rhaglenni yn gallu effeithio enw da unigolion, cwmnïau neu gyrff eraill yn niweidiol a dylent gymryd pob gofal rhesymol i fodloni eu hunain bod yr holl ffeithiau perthnasol wedi eu hystyried cyn darlledu a chyn belled â phosibl wedi eu cyflwyno'n deg (Côt Tegwch, paragraff 7). Gan gymryd y gofynion hyn i ystyriaeth deliodd y pwyllgor â phob un o'r cwynion unigol a wnaethpwyd gan Mrs Holland yn ymwneud â chynnwys y rhaglen ar wahân.
- i. Ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland am gyfeiriad y rhaglen yn ei sylwebaeth agoriadol at:

"ma' ffermwr yn deud bod o'n cael ei erlid o'i fro enedigol."

Ystyriodd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland bod y datganiad hwn yn annheg gan mai dim ond wyth acer y mae ei chaeau hi yn ei gynnwys allan o bedwar can acer yn y cwm yr oedd y ffermwr Mr Jones yn eu pori, ac ymhellach bod Mr Jones yn dal i gadw defaid a magu ŵyn. Cymrodd y Pwyllgor ystyriaeth hefyd o sylwadau S4C bod yr wyth acer neilltuol hyn yn hanfodol i Mr Jones yn ystod y tymor wyna oherwydd eu natur gysgodol a modd o gael gafael ar ddŵr a'i allu i barhau i weithio a byw yn y cwm nawr fod ganddo gant yn llai o ddefaid oherwydd iddo golli tir Tyn y Coed a'r ffaith ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei wthio o'r cwm.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn anghymesur nodi y byddai colli wyth acer allan o bedwar can acer yn esgor ar Mr Jones yn 'cael ei erlid' neu 'ei wthio allan'. Ym marn y Pwyllgor roedd disgrifiad y sylwebaeth felly yn annheg o dderbyn y canran bychan o aceri mewn anghydfod o'i gymharu â gweddill yr aceri yn y cwm yr oedd Mr Jones yn eu pori. Roedd y mynegiant o 'erlid o'i...' a'i 'wthio allan' yn is-deitlau'r rhaglen ym marn y Pwyllgor yn iaith emosiynol yng nghyd-destun y nifer o aceri dan sylw ac yn amgylchiadau'r achos hwn sy'n cael eu hystyried ym mhenderfyniad pwynt vii isod. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad, er bod y disgrifiad wedi'i briodoli i'r ffermwr, roedd yn gwasanaethu i gyflwyno'r anghydfod ar ddechrau'r rhaglen mewn modd oed yn annheg â Mrs

Holland. Esgorodd hyn ar annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- ii. Ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland am gyfeiriad y rhaglen yn ei sylwebaeth agoriadol at :

"mewnfudwyr"

Nododd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland bod y disgrifiad hwn yn annheg oherwydd ei bod wedi byw yn y cwm am dros ddeugain mlynedd, yn llawn amser am y deng mlynedd diwethaf. Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniadau S4C hefyd bod y gair yn cyfeirio at y ffaith nad oedd Mrs Holland wedi'i magu yn yr ardal yn ogystal â'u hymateb bod y datganiad yn rhan o gwestiwn rhethregol am waith Cymuned.

Nododd y Pwyllgor y cyfeiriad llawn yn y rhaglen:

"Heno: ydi mudiad Cymuned yn amddiffyn y Cymry neu'n cynddeirioi mewnfudwyr?"

Ym marn y Pwyllgor Tegwch, roedd y gair "mewnfudwyr" yn dilyn disgrifiad y sylwebaeth o'r anghydfod gyda Mr Jones ac yn amlwg yn cyfeirio at Mrs Holland. Ystyriodd y Pwyllgor bod y cyfeiriad hwn yn annheg am ei fod yn ymestyn ystyr "mewnfudwyr" yn rhy bell o ystyried bod cartref Mrs Holland yn y cwm ac o ystyried faint o amser y mae wedi ei wario yno, yn ogystal â byw yno. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ystyried bod y defnydd o'r gair yn awgrymu cyfeiriad at rywun oedd ddim yn perthyn. Darganfu'r Pwyllgor bod hyn yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd. Ystyrir effaith cronus y cyflwyniad o Mrs Holland yn mhenderfyniad b).

Cwynodd Mrs Holland ymhellach ynglŷn â chyfweliad Mr Meirion Jones, fel y'i darlledwyd, ble y gofynnodd:

"pam dod yma i brynu tŷ mewn math le yn y cychwyn?"

Nododd y Pwyllgor ymateb S4C bod y cyfeiriad at unrhyw fewnfudwr yn dewis byw mewn amgylchedd gwledig a bod y sylwadau'n dilyn cwestiwn y newyddiadurwr:

"Newyddiadurwr: 'Da chi'n meddwl bod hi'n anodd iddyn' nhw yn byw yn y tai 'na a'ch tir chi yn amgylchynu nhw? A chithau yno yn ffermio?"

ac nid oedd yn mabwysiadu'r cynsail mai bai'r mewnfudwyr oedd yr anghydfod.

Darganfu'r Pwyllgor bod y cwestiwn rhethregol a ofynnwyd gan Mr Jones yn un cyffredinol, nad oedd yn cyfeirio at Mrs Holland ac felly nad oedd yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- iii. Ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland ynglŷn â chyfeiriad y sylwebaeth:

"Ma'r rhan fwyaf o dai'r Cwm yn dai haf."

Nododd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland mai ei chartref a'i thir oedd ei chartref parhaol a bod y disgrifiad hwn yn annheg iddi hi. Nododd y Pwyllgor hefyd

ymateb S4C mai cyfeiriad at y cwm bach Cwm Mynach yn unig ydoedd. Nododd y Pwyllgor nad oedd Mrs Holland yn anghytuno gyda'r cyfeiriad o fewn cyd-destun cul Cwm Mynach.

Ystyriodd y Pwyllgor sylwebaeth y rhaglen a ragflaenodd y cyfeiriad hwn:

"Cwm Mynach ger Dolgellau ym mherfeddion Meirionnydd."

Ymddangosodd i'r Pwyllgor bod y frawddeg hon o sylwebaeth ragflaenol yn gosod y cyfeiriad at dai haf yn glir o fewn Cwm Mynach a nododd nad oedd Mrs Holland yn dadlau gyda chywirdeb y cyfeiriad o fewn y cyd-destun hwn. Casglodd y Pwyllgor felly bod y cyfeiriad yn gywir yng nghyd-destun y gymdogaeth uniongyrchol y cyfeiriwyd ato, ac ar sail hyn nid oedd yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

Ystyriodd y Pwyllgor gŵyn pellach Mrs Holland bod y rhaglen yn awgrymu ei bod yn berchennog ail gartref. Roedd hyn yn gyfeiriad at gyfweiliad gyda Mr Aran Jones o Cymuned, a ddarlledwyd yn y rhaglen, ble gwnaeth y datganiad:

"Mi fase fe'n sefydlu'r cydsyniad os ydi ffermwr yn torri ar draws rhywun sy'n defnyddio tŷ fel ail gartref bod y ffarmwr rhywsut ar fai."

Nododd y Pwyllgor ymateb S4C bod Mr Aran Jones yn egluro goblygiadau ehangach yr anghydfod hwn a'u cyfeiriad at gyfeiriad busnes Mrs Holland ym Manceinion.

Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor bod sylw Mr Aran Jones, er yn gyffredinol, wedi ei osod yn dilyn llinell o sylwebaeth oedd yn cyfeirio at yr anghydfod penodol parthed Mrs Holland a Mr Meirion Jones.

"Yng Nghwm Mynach, ma' Meirion Jones wedi ei amgylchynu gan dai mewnfudwyr. Mae o'n teimlo bod o'n cael ei wthio allan o'r Cwm a ma' hynny'n annheg yn ôl Cymuned."

O fewn cyd-destun y cafodd ei gynnwys teimlai'r Pwyllgor y gallai'r cyfeiriad at "rhywun sy'n defnyddio tŷ ..fel ail gartref" gael ei ddehongli fel bod yn berthnasol i Mrs Holland. Roedd yr un mor eglur i'r Pwyllgor, er gwaethaf ei chyfeiriad busnes, nad hwn oedd ei hail gartref. Roedd y cyfeiriad felly yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- iv. Nesaf fe ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland bod y cyfeiriad ati yn "gadael i'w chŵn redeg o gwmpas heb dennyn" yn annheg gan nad oedd hyn yn drosedd, ac na chafodd erlyniad gan Mr Jones yn ei herbyn am achosi gofid i ddefaid ei gynnal.

Nododd y Pwyllgor gŵyn pellach Mrs Holland bod y cyfeiriad ei bod wedi rhoi "rhybudd terfynol [i Mr Jones] i ddarfod y denantiaeth dros flwyddyn yn ôl" yn rhoi'r argraff gamarweiniol ei bod yn gweithredu o ganlyniad i achos llys Mr Jones ynghylch ei chŵn, ac o ganlyniad yn ei phortreadu fel person dibwys a bychan ei meddwl. Mewn gwirionedd, daeth Mr Jones â'r achos llys yn erbyn Mrs Holland wedi i'r rhybudd i ymadael cael ei gyflwyno.

Nododd y Pwyllgor ymateb S4C bod yr erlyniaeth wedi ei grynhoi yn deg, bod y rhaglen wedi dangos bod honiadau Mr Jones yn erbyn Mrs Holland, ynglŷn â'r

cŵn, yn ddi-sail a bod y gronoleg yn ddibwys ac nad oedd yn achosi annhegwch.

Ystyriodd y Pwyllgor y sylwebaeth fel y'i darlledwyd:

“Llynedd yn llys ynadon Dolgellau, mi nath Meirion Jones ddwyn achos yn erbyn Susan Holland am gerdded ei chŵn heb dennyn drwy'r defaid ar ei dir o. Ond mi nath y llys dderbyn bod ganddi ganiatâd y ffarmwr i wneud hynny... Mi nath perthynas y ffarmwr a Susan Holland waethygu ar ôl yr achos llys. Mi roth hi rybudd terfynol i ddod â'r denantiaeth i ben dros flwyddyn yn ôl.”

Roedd gwir ddilyniant y digwyddiadau yn glir o gyflwyniadau Mrs Holland ac nid oedd gwneuthurwyr y rhaglen yn dadlau gyda nhw. Tra bod y sylwebaeth yn egluro na lwyddodd yr erlyniad yn erbyn Mrs Holland, cytunodd y Pwyllgor bod y gronoleg a gafwyd yn y rhaglen yn anghywir, ac yn rhoi'r argraff wallus bod Mrs Holland wedi rhoi rhybudd terfynol i Mr Meirion Jones i ddarod y denantiaeth o ganlyniad i'r achos llys a ddwynodd Mr Meirion Jones yn ei herbyn ynglŷn â'i chŵn. Darganfu'r Pwyllgor bod y dilyniant hwn a chyfosodiad deunydd yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- v. Nesaf, ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland ynghylch y llinell o sylwebaeth:

“Ma' hi'n dadlau' nad ydi Meirion Jones wir angen ei thir hi.”

Nododd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland bod hyn yn annheg gan ei bod yn derbyn y dylai'r teulu Jones yn foisol, hanesyddol a diwylliannol fod yn pori ar ei thir, ond mai gweithredoedd Mr Jones sydd wedi arwain iddo gael ei wahardd rhag pori yno ac mewn termau ymarferol does dim angen y tir arno. Nododd y Pwyllgor hefyd sylwadau S4C bod Mrs Holland, gyda'r gŵyn hon, yn gwrthddweud ei chŵyn cynharach nad oedd angen wyth acer Mrs Holland ar Mr Jones a bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi dibynnu ar yr hyn a ddywedodd yr achwynwyr wrthynt.

Ystyriodd y Pwyllgor bod y rhaglen yn syml yn honni “Ma' hi'n dadla” heb gynnig eglurhad ynglŷn â phryd, ac o dan ba amgylchiadau y gwnaeth Mrs Holland yr honiad hwn. Heb y fath gyd-destun, ystyriodd y Pwyllgor bod yr honiad yn rhoi argraff anghyflawn o safbwynt Mrs Holland ac felly'n canfod bod ei gynhwysiad yn golygu annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- vi. Nesaf ystyriodd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland am y darn:

*“Sylwebaeth: Mi oedd ffermwyr lleol yno hefyd yn helpu Meirion Jones i droi'r sdoc yn ôl i'r caeau, ac mi o nhw'n dyst i ymateb Marc Asquith”
Cyfweiliad: ‘Mae e'n cydio yn y ddafad, wel, cydio yn ei asgwrn cefn - tu ôl i'w... chefn hi, ac yn ei...yn ei gwâr mewn ffordd ac yn usio'i ben-glin i luchio'i drosodd.’”*

Nododd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland bod hyn yn annheg gan mai hi yrrodd a symud y defaid ar ben ei hun. Nododd y Pwyllgor hefyd ymateb S4C mai gwybodaeth a gafwyd gan Mr Meirion Jones oedd hwn.

Nid oedd y darn hwn yn crybwyll Mrs Holland ac, ym marn y Pwyllgor, ychydig o argraff a fyddai wedi ei wneud ar wylwr rhesymol parthed Mrs Holland. Casglodd y Pwyllgor nad oedd y darn felly yn golygu annhegwch iddi hi yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

- vii. Nesaf ystyriodd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland parthed y sylwebaeth ar yr achos llys:

“Mi ath Meirion Jones i lys i drïo cael cytundeb tenantiaeth lawn ar dir Tyn y Coed. Ond unwaith eto Susan Holland nath ennill y dydd. Fis Ebrill mi gath hi orchymyn llys i hel y ffarmwr o ‘na.’”

Ystyriodd y Pwyllgor gŵyn Mrs Holland bod y cyfeiriad “mi ath Meirion Jones i lys” yn anghywir gan mai hi gychwynnodd yr achos a bod y cyfeiriad “fis Ebrill mi gath hi orchymyn llys i hel y ffarmwr o ‘na’, hefyd yn anghywir, gan na gafwyd y gorchymyn nes 8 Gorffennaf 2005, ac na wnaeth ei orfodi oddi ar y tir; nid oedd ganddo hawl i aros. Fe ystyriodd y Pwyllgor hefyd ymateb S4C bod y rhaglen yn crynhoi'r sefyllfa yn deg ac nad oedd fawr o bwys pwy gychwynnodd yr achos, na chwaith mai Mr Jones a ddarparodd y dyddiad a, fodd bynnag, fe gadarnhaodd yr achwynwyr ei fod i bob pwrpas wedi ei orfodi oddi ar y tir.

Nododd y Pwyllgor nad oedd gwneuthurwyr y rhaglen yn dadlau gyda fersiwn yr achwynwyr o'r hyn ddigwyddodd, sef mai Mrs Holland gychwynnodd yr achos llys. Casglodd y Pwyllgor nad oedd cywirdeb y frawddeg olaf, ynghylch dyddiad y gorchymyn llys, ynddo'i hun yn golygu annhegwch i Mrs Holland. Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor, yng ngoleuni'r darganfyddiad cynharach ynghylch yr achos llys a ddeliwyd gydag ef uchod ym mhenderfyniad a)(iv), bod pwy gychwynnodd yr achos yn berthnasol. Ystyriodd y Pwyllgor bod cyflwyniad deunydd yn y rhan hwn yn dwysau'r annhegwch fel yr amlinellwyd ym menderfyniad a) iv) uchod, ac o'i gymryd gyda'r sylwebaeth gynharach roedd hyn yn debygol o effeithio ar ddadansoddiad gwylwyr o'r digwyddiadau ac, yn sgil hynny, gael effaith anffafriol ar eu hargraff o Mrs Holland a'i gweithredoedd parthed Mr Jones. Casglodd y Pwyllgor felly bod cyflwyniad a chyfosodiad deunydd yn ymwneud â'r achos llys, yn y ran yma o'r sylwebaeth, yn annheg ar Mrs Holland.

- viii. Nesaf ystyriodd y Pwyllgor Tegwch gŵyn Mrs Holland ynglŷn â chyfeiriad y rhaglen at “ffordd breifat”.

Nododd y Pwyllgor bod Mrs Holland wedi cwyno bod y cyfeiriad at y ffordd dros ei thir fel “ffordd breifat” yn anghywir gan mai hi oedd piau'r tir, ond bod y ffordd oedd yn mynd drosto yn briffordd gyhoeddus .

Nododd y Pwyllgor ymateb S4C mai Mrs Holland roddodd yr wybodaeth iddynt fod y ffordd yn breifat, ond mai'r Cyngor a gadarnhaodd ei fod yn briffordd gyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor y rhan yn llawn, “darn i gamera” llafar y newyddiadurwr oedd yn datgan:

“Roedd hi'n deud nad oedd gennym ni'r hawl i'w ffilmio hi ar y ffordd yma gan ei bod hi, medde hi, yn ffordd preifat oedd yn pia iddi.”

Nid yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor i benderfynu natur y ffordd arbennig hon a'i berchnogaeth. Gan roi gwahanol ddadansoddiadau o statws cyfreithiol y ffordd o'r neilltu, roedd y Pwyllgor yn gallu ystyried a achoswyd unrhyw annhegwch i Mrs Holland o ddefnyddio'r term "ffordd breifat" yn y rhaglen fel y'i darlledwyd. Ystyriodd y Pwyllgor nad oedd crynodeb y newyddiadurwr o'r anghydfod rhwng Mrs Holland a gwneuthurwyr y rhaglen ynglŷn â ffilmio ar y ffordd yn rhoi cyflwyniad annheg o Mrs Holland na'i barn ynglŷn ag egwyddor gyffredinol ffilmio ar ei heiddo, gan nad oedd Mrs Holland yn dymuno i S4C ffilmio ar ei heiddo beth bynnag. Casglodd y Pwyllgor felly nad oedd hyn wedi achosi unrhyw annhegwch i Mrs Holland yn y rhaglen fel y'i darlledir.

- d) Nesaf, ystyriodd y Pwyllgor gwynion Mrs Holland bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi arddangos rhagfarn; eu bod wedi dewis anwybyddu'r ffeithiau a'i phortreadu fel perchennog tŷ haf Saesneg oedd wedi taflu ffermwr Cymraeg oddi ar ei thir am nad oedd hi'n hoffi ei weithgareddau ffermio; bod yr achwynwyr wedi ymddangos yn y rhaglen am tua chwe munud; er gwaetha'i dymuniad hi i beidio ag ymddangos; a bod y gwneuthurwyr rhaglenni hefyd wedi peidio â chynnwys cyfweiliad a recordiwyd gyda chymydog, Mr Mygind, oedd yn golygu annhegwch i Mrs Holland.

Ymddengys bod cŵyn Mrs Holland am ragfarn yn ymwneud â'r angen i ddarlledwyr gadw "amhleidioldeb dyledus" ar faterion o anghydfod gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae hwn yn "nod safonol" o dan Adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac fel y cyfryw ni ellir ei ystyried gan y Pwyllgor Tegwch. Fodd bynnag, wrth ystyried a gafodd Mrs Holland ei thrin yn annheg yn y rhaglen, mae'r Pwyllgor yn gallu ystyried a oedd y portread o Mrs Holland yn gyffredinol yn annheg yn ei effaith cronus.

Fel y trafodwyd uchod, mae gan ddarlledwyr ddyletswydd i osgoi annhegwch i unigolion neu sefydliadau sy'n ymddangos mewn rhaglenni trwy ddefnydd o wybodaeth anghywir neu afluniad, er enghraifft trwy ddewis deunydd annheg neu gyfosod deunydd yn annheg (y Côt Tegwch paragraff 2). Nododd Ofcom ymateb S4C nad gwrthdrawiad rhwng Saesneg a Chymraeg mo'r stori ond gwrthdrawiad rhwng gwahanol ffyrdd o fyw. Fodd bynnag, o ystyried y casgliadau cyffredinol ym mhenderfyniad a), barn y Pwyllgor oedd, er mai bwriad y rhaglen efallai oedd ystyried materion ynglŷn â gwahanol ffyrdd o fyw, bod effaith cronus y cyflwyniad o Mrs Holland yn y rhaglen yn bortread annheg o Mrs Holland, ei gweithredoedd a'i chymhelliad.

Yn ei ystyriaeth o gŵyn pellach Mrs Holland ei bod wedi ymddangos yn y rhaglen pan nad oedd yn dymuno ymddangos o gwbl, nododd y Pwyllgor ymateb S4C bod y cyfnod o amser yr oedd yr achwynwyr yn ymddangos yn y rhaglen yn adlewyrchu faint o amser y gwnaethant ei wario yn mynd at y camera a'i bod yn ddadleuol a oedd Mrs Holland wedi gwyrto o'i datganiad nad oedd yn dymuno. Archwiliodd y Pwyllgor yn fanwl y deunydd heb ei ddarlledu a ffilmwyd gyda Mrs Holland. Roedd y deunydd hwn yn dangos Mrs Holland yn datgan drachefn nad oedd yn dymuno ymddangos yn y rhaglen o gwbl ac yn gofyn drachefn i'r camera gael ei ddiffodd. Mae paragraff 12 o'r Côt Tegwch yn eglur ynglŷn â hawliau unrhyw berson i wrthod cymryd rhan mewn rhaglen. Mae paragraffau 25, 26 a 27 o'r Côt Tegwch yn manylu ar ddyletswyddau'r gwneuthurwyr rhaglenni na ddylent ddangos person o'r fath oni bai eu bod yn credu'n rhesymol bod eu cynhwysiad yn y rhaglen er budd hollbwysig i'r cyhoedd a ble bo ceisiadau rhesymol am gyfraniad gan y person wedi eu gwrthod.

Ni chafwyd tystiolaeth gab S4C bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi disbyddu ceisiadau rhesymol i Mrs Holland ddarparu cyfraniad oddi ar gamera naill ai trwy lythyr, ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb. Yn wir, nododd y Pwyllgor, o ystyried y deunydd na chafodd ei ddarlledu, bod Mrs Holland a'i phartner Mr Asquith (ystyried ei gwynion isod) wedi ceisio cyfleoedd i siarad gyda gwneuthurwyr y rhaglen oddi ar gamera ac egluro'u sefyllfa. Yn yr amgylchiadau hyn nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yna unrhyw fath o gyfiawnhad i gynnwys Mrs Holland, na bod cuddio'i hwyneb yn cydymffurfio gyda'i hawliau i beidio ag ymddangos yn y rhaglen. Roedd cynhwysiad Mrs Holland mewn rhaglen nad oedd hi eisiau bod yn rhan ohono, a heb gyfiawnhad budd hollbwysig i'r cyhoedd fel y trafodwyd uchod, felly yn golygu annhegwch iddi hi yn y rhaglen fel y'i darlledwyd.

Cŵyn olaf Mrs Holland ynglŷn â thegwch oedd bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi recordio, ond heb ddarlledu, cyfweiliad gyda chymydog, Mr Mygind a bod hyn wedi golygu annhegwch iddi hi. Mae gan wneuthurwyr rhaglenni dyletswydd i gymryd pob gofal rhesymol i fodloni eu hunain bod holl ffeithiau perthnasol wedi eu hystyried cyn darlledu a chyn belled a bo'n bosib yn cael eu cyflwyno'n deg (Paragraff 7 o'r Côd Tegwch).

Gan ystyried ymateb S4C na ddefnyddiwyd y cyfweiliad gan ei fod yn cynnwys anghydfod gwahanol iawn ynghylch ffermio'r tir, archwiliodd y Pwyllgor y defnydd na chafodd ei ddarlledu o'r cyfweiliad gyda Mr Mygind. Roedd hi'n amlwg o'r sgwrs hwn bod Mr Jones yn ddyn a chanddo ddadleuon gyda pherchnogion tir eraill oedd wedi hen setlo yn yr ardal, ac nad Mrs Holland oedd yr unig berson i gael ei hun mewn anghytundeb gydag ef. Yn ogystal, fe allai'r cyfweiliad gael ei gymryd i fod yn dangos y materion rhwng Mrs Holland a Mr Jones yng nghyd-destun anghydfod yn y gymuned amaethyddol ynghylch gweithgareddau ffermio Mr Jones a defnydd o'r tir yn y dyffryn. Er mai mater i wneuthurwyr y rhaglen yw penderfynu a ddylid cynnwys deunydd o'r cyfweiliad hwn yn y rhaglen ai peidio, roedd gan wneuthurwyr y rhaglen ddyletswydd i gymryd pob gofal rhesymol i fodloni eu hunain bod yr holl ffeithiau perthnasol wedi eu hystyried cyn darlledu (Paragraff 7 o'r Côd Tegwch). Barn y Pwyllgor yw, oherwydd bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi methu a gosod yr anghydfod rhwng Mrs Holland a Mr Jones yn ei gyd-destun llawn trwy gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd yn y cyfweiliad gyda Mr Mygind, roedd gwneuthurwyr y rhaglen wedi peidio â chynnwys ffeithiau perthnasol yn y rhaglen a fyddai'n effeithio ar ddealltwriaeth y gwylwyr o ddeliad Mrs Holland gyda Mr Jones, ac felly'n effeithio eu cysyniad o'i phortread yn y rhaglen. Darganfu'r Pwyllgor felly bod yr hepgori hwn, o ffeithiau perthnasol, yn golygu annhegwch i Mrs Holland.

- c) Fe drodd y Pwyllgor Tegwch wedyn at gwynion Mrs Holland ynglŷn â phreifatrwydd. Cwynodd Mrs Holland bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi mynd ar ei thir heb ganiatâd a recordio deunydd er gwaethaf ceisiadau i beidio â gwneud hynny. Nododd y Pwyllgor ymateb S4C bod gwneuthurwyr y rhaglen yn credu bod ganddynt hawl i ffilio gan eu bod ar, neu ar gyrion, priffordd gyhoeddus.

Deliodd y Pwyllgor yn gyntaf gyda'r mater o p'un ai cafodd preifatrwydd Mrs Holland ei dorri wrth recordio'r deunydd ar ei thir. Yn ei ystyriaeth, fe edrychodd y Pwyllgor ar y deunydd a recordiwyd ar dir Mrs Holland a gafodd ei ddarlledu ac na chafodd ei ddarlledu. Gwahaniaethodd y Pwyllgor rhwng recordio deunydd cyffredinol o'i thir a recordio deunydd penodol o Mrs Holland, ei thŷ a'i char. Roedd gan y Pwyllgor ystyriaeth i ddyletswydd gwneuthurwyr y rhaglen yn eu defnydd o gamerâu ar eiddo cyhoeddus a phreifat, ble bo'n rhaid i'r fath ddefnydd fod yn addas i bwysigrwydd neu natur y stori ac na ddylai'r fath recordio dorri'n ddiangen ar ymddygiad preifat (Paragraff 18 (iii) o'r Côd Tegwch). Ystyriodd y

Pwyllgor felly nad oedd y recordiad o ddeunydd cyffredinol ar dir Mrs Holland, er ei fod wedi ei recordio heb ganiatâd, yn torri ar ei phreifatrwydd trwy, er enghraifft, amharu ar ei bywyd personol a'i bywyd teuluol. Yn nhermau'r recordiad o ddeunydd penodol o Mrs Holland, ei thŷ, a'i char, roedd yn glir o'r deunydd a gasglwyd bod gwneuthurwyr y rhaglen wedi bwriadu recordio'r fath siots. Er enghraifft, ar un pwynt yn y deunydd na chafodd ei ddarlledu roedd y camera'n amlwg yn ffocysu ar grŵp o bobl oedd yn sefyll y tu allan i'r tŷ. Ystyriodd y Pwyllgor bod y cyfuniad o ffilmio, a mynnu parhau i ffilmio pan oedd Mrs Holland wedi gwneud ei dymuniadau'n eglur i wneuthurwyr y rhaglen, yn amharu ar ei bywyd personol a theuluol, ac yn torri ar ei phreifatrwydd.

